

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>24 Tachwedd, 2015</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>Ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Derbyn sylwadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Cyflwyno sylwadau</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Geraint Owen Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</b>

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd yn gyfrifol am bennu'r cyflogau a'r costau sydd yn daladwy i gynghorwyr yn rhinwedd eu dyletswyddau. Bob blwyddyn, mae'r Panel yn cyhoeddi cynigion drafft ac yn ymgynghori arnynt.
2. Fel arfer, nid oes llawer o destun trafod yn yr argymhellion gan ei fod yn cymryd agwedd gyffredin at y cyflogau a chostau a delir i bob cynghorydd ond eleni mae awgrymiadau sydd yn teilyngu sylw ar wahân.
3. Mae cynigion eleni yn cynnwys rhewi'r cyflogau sylfaenol a delir i bob aelod ar draws y bwrdd ond mae hefyd yn cynnig rhai materion penodol eraill, sef:-
  - **Is-Arweinydd** – Newid mewn cyflog Is-Arweinydd (lleihad o £150 yn achos Gwynedd)
  - **Aelodau Cabinet** – Dwy lefel o gydnabyddiaeth i aelodau'r Cabinet (heb gynnwys yr Arweinydd a'r Is-Arweinydd). Uchafswm o bedwar i dderbyn cyflog lefel 1 (£29,000 – y lefel bresennol) a phedwar i dderbyn cyflog lefel 2 (£26,100 – gostyngiad o 10%). Mae'r Panel yn nodi fod hyn yn ymateb i'r sefyllfa ar draws Cymru lle mae rhai Awdurdodau wedi dewis sefydlu cabinet llai na'r uchafswm o ddeg aelod, a'r ffaith fod aelodau wedi nodi fod anghysondeb yn maint y cyfrifoldebau.
  - **Cadeiryddion Pwyllgorau** (sy'n derbyn uwch gyflog) – Dwy lefel o gydnabyddiaeth ariannol i Gadeiryddion y Pwyllgorau perthnasol. Lefel 1 (£22,000 – y lefel gyffredol) a lefel 2 (£20,000). Cynghorau unigol i benderfynu pwy sydd i dderbyn pa lefel.
  - **Arweinydd yr wrthblaid fwyaf** – Lleihad yng nghydnabyddiaeth Arweinydd yr wrthblaid – lawr o £22,000 i £20,000, sy'n gyson gyda lefel 2 Cadeiryddion pwyllgor
4. Yn gyffredinol, mae gwrthwynebiad i'r cynigion hyn ar draws Cymru. Mae'r mater yn amlwg yn bwnc ar gyfer barn aelodau a nid swyddogion ond efallai bod rhai ystyriaethau ar ddau o'r cynigion y byddai'r pwyllgor yn dymuno rhoi sylw iddynt:-
  - Mae'r awgrym o wahaniaethu mewn cyflogau Aelod Cabinet yn ymddangos fel bae yn ymateb i faterion sydd yn codi mewn rhai cynghorau yn unig. Tybed, a yw gosod rheol haearnaidd o'r fath yn mynd i gyfyngu ar yr hyblygrwydd mewn cynghorau unigol i fod yn llunio portffolios sydd yn gwneud synnwyr yn yr amgylchiadau lleol arbennig? Byddai'r cyfyngiad arfaethedig ar yn union faint o

aelodau sydd yn cael derbyn cyflog lefel 1 yn gyfyngiad pellach ar hyblygrwydd cynghorau unigol. Problem arall fyddai yn ymarferol sut y gellir gwahaniaethu rhwng portffolios. Os mai'r pryder yw bod aelodau sydd ar gabinet bach yn dal mwy o gyfrifoldebau, posibilrwydd arall fyddai gosod cap ar y cyflogau i'r weithrediaeth a gadael y taliadau unigol i gynghorau unigol.

- Byddai pawb yn cydnabod bod rhai gwahaniaethau yn y cyfrifoldebau ar y cadeiryddion pwyllgor sydd yn derbyn uwch gyflog, pe bae ond o ran amlder cyfarfodydd, sydd yn amrywio yn sylweddol yng Ngwynedd. Yn sgil hynny, a gyda rhyddid i gynghorau benderfynu faint o cadeiryddiaethau sydd ar y ddau lefel, mae hyn yn ymddangos fel cynnig rhesymol.

## 5. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor